IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 22 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Goddard a/ac Lloyd |

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - M FUEL, HEOL CASNEWYDD

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

6 : CAIS CANIATÁU TRWYDDED SAFLE – CURADO BAR, PLAS Y NEUADD

Ymgeiswyr: Wedi'u cynrychioli gan Matthew Phipps
Simona Pallet a Paul Grimwood - Curado Bar

Awdurdod Cyfrifol: Justin Hardwick a Tim Davies, Heddlu De Cymru
Cheryl Williams, Bwrdd Iechyd
Mandy Ewington, Trwyddedu

Y Cais

Daeth cais i ganiatáu Trwydded Safle i law oddi wrth Curado Bar Limited mewn perthynas â Curado Bar Limited, 2 Plas y Neuadd, Caerdydd, CF10 1EB.

Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau canlynol y mae angen trwydded ar eu cyfer:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle.

2. Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos.

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

“Bar tapas a bwyty gyda siop delicatessen"

(3) Oni nodir fel arall, caiff y safle fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau a ganlyn, ac am unrhyw oriau sydd yn tarddu o'r amseroedd ansafonol:

Dydd Llun i Dydd Sul: 7:00 - 00:30

(4) Darparu gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle:

Dydd Llun i Dydd Sul: 10:00 - 00:00

2. Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do):

Dydd Llun i Dydd Sul: 23:00 - 00:30

Ar ddechrau'r cyfarfod, dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod cytundeb wedi'i sefydlu rhwng yr awdurdodau cyfrifol a'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD: rhoi trwydded yn unol â'r amodau canlynol a gytunwyd rhwng yr awdurdodau cyfrifol a'r ymgeisydd:

*Cyfyngir ar oriau agor y safle i 0700 - 0030 bob dydd.*

*Cyfyngir ar yr oriau lle caniateir gwerthu alcohol i 1000 - 0000 bob dydd.*

*Cyfyngir ar yr oriau lle caniateir darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos i 2300 - 0030 bob dydd.*

*Bydd TCC yn cael ei osod hyd at safon a gytunir â Heddlu De Cymru. Bydd y system honno'n cael ei chynnal a'i gweithredu drwy gydol yr amser tra bo'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys yr holl ardaloedd y caiff y cyhoedd fynediad iddynt (ac eithrio'r toiledau), gan gynnwys mynedfeydd ac allanfeydd, ac unrhyw ardaloedd allanol a ddefnyddir gan gwsmeriaid. Cedwir delweddau a 31 diwrnod o leiaf. Caiff y delweddau eu cyflwyno i gyflogai awdurdodedig o'r heddlu mewn fformat hygyrch ar ôl derbyn cais rhesymol (o fewn 24 awr). Darperir hyfforddiant digonol i'r staff er mwyn hwyluso cais o'r fath.*

*Bydd y fwydlen lawn ar gael drwy gydol y diwrnod masnachu (yn amodol ar gyfnod dirwyn i ben cyn yr awr olaf o wasanaeth).*

*Ar ddiwrnodiau a ystyrir yn 'ddiwrnodiau digwyddiad mawr' gan Heddlu De Cymru, caiff pob diod ei harllwys i gwpan blastig, ar wahân i ddiodydd poeth (llestri cerameg) a gwin, siampên a diodydd coctêl, os cânt eu gweini gyda phryd bwyd ar fwrdd i gwsmeriaid sydd yn eistedd, oni chytunir fel arall â'r heddlu, mewn ysgrifen, yn dilyn cais a wneir o leiaf 14 diwrnod cyn digwyddiad o'r fath.*

*Ar ddiwrnodiau digwyddiad mawr yng Nghanol Dinas Caerdydd, fel digwyddiadau chwaraeon yn Stadiwm y Principality, bydd aelod(au) staff ar ddyletswydd wrth y drws sydd wedi cofrestru gyda'r SIA (wedi'u cyflogi ar gyfradd o 1:100) pan fydd alcohol yn cael ei gynnig i'w werthu, o leiaf 3 awr cyn dechrau'r digwyddiad, hyd amser cau, oni chytunir fel arall â'r heddlu, mewn ysgrifen, yn dilyn cais a wneir o leiaf 14 diwrnod cyn digwyddiad o'r fath.*

*Ar ddiwrnodiau digwyddiad mawr yng Nghanol Dinas Caerdydd, fel digwyddiadau chwaraeon yn Stadiwm y Principality, ni fydd y safle yn gosod byrddau, cadeiriau,*

*planhigion nac eitemau tebyg fydd yn rhwystro mynediad ar hyd Plas y Neuadd na Heol y Porth.*

*“Ni cheir fynd ag unrhyw wydr o gwbl y tu allan i'r safle ar Ddiwrnodiau Digwyddiad Mawr"*

*Ni chaniateir unrhyw ddawnsio glîn, strip-bryfocio nac unrhyw adloniant oedolion tebyg ar y safle.*

*Pan gynhelir digwyddiadau preifat mawr ar y safle, fel partïon trwy wahoddiad yn unig, bydd aelod staff drws ar ddyletswydd i oruchwylio mynediad (os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar gyfer mwy na 50 o bobl)*

*Ni fydd y Drwydded Safle yn dod i rym o gwbl nes bo'r safle wedi'i adeiladu/addasu'n unol â darpariaethau priodol yr awdurdod trwyddedu lleol yn unig, ac nes bo’r amod hwn wedi'i ddileu o'r drwydded safle.*

*Bydd gwasanaeth gweinydd/gweinyddes ar gael bob amser, ac ar unrhyw bryd bydd 80% o leiaf o'r ardal masnachu cyhoeddus fewnol yn cynnwys byrddau a chadeiriau.*

*Rhedir y safle fel bwyty trwyddedig yn bennaf.*

*Cyfnod o 30 munud i orffen diodydd yn ychwanegol at yr amser pan ddaw gwerthiant alcohol i ben fel bo modd i gwsmeriaid ddefnyddio'r toiledau ac ymadael â'r safle.*

*Gallai lleoliadau cyfarpar diogelwch tân, a mathau eraill o gyfarpar diogelwch, newid yn unol â gofynion yr awdurdodau cyfrifol, neu yn dilyn asesiad risg.*

*Nid yw unrhyw fanylion a ddangosir ar y cynllun, nad ydynt yn ofynnol yn ôl rheoliadau cynlluniau trwyddedu, ond yn ddangosol, a gallent newid ar unrhyw bryd.*

*Bydd yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer eu swydd ar y safle. Bydd yr hyfforddiant wedi'i ysgrifennu ar ffurf rhaglen a adolygir yn barhaus, ac a ddarperir i awdurdod cyfrifol ar gais rhesymol.*

*Bod yn aelod o Pubwatch neu gynllun tebyg.*

*Dylid cadw a chynnal cofnod o bob digwyddiad. Mae'n rhaid i'r cofnod hwn fod ar gael i Swyddogion yr Heddlu neu'r Cyngor ar gais. Caiff troseddau perthnasol eu hadrodd i'r Heddlu mewn da bryd.*

*Bydd mesurau diogelwch tân priodol yn cael eu gosod a'u cynnal fel y dangosir yn y darluniau a gyflwynir gyda'r cais hwn.*

*Darperir storfa ysbwriel o faint digonol.*

*Ni cheir ond bwyta'r lluniaeth a ddarperir yn hwyr yn y nos ar y safle.*

*Dylai Deiliad Trwydded y Safle, neu unigolyn a enwebir, sicrhau bod arwyddion addas yn cael eu lleoli wrth allanfeydd yn gofyn am gydweithrediad y cwsmeriaid, ac yn gofyn yn arbennig iddynt sicrhau cyn lleied o sŵn â phosib wrth adael yr eiddo.*

*Gofynnir i gwsmeriaid beidio ag oedi i sgwrsio yn y stryd y tu allan i'r safle neu mewn unrhyw faes parcio; a gofynnir iddynt adael yr ardal gyfagos yn dawel a chyflym.*

*Bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r gyfraith newydd ynghylch gwrthod gwasanaeth i unrhyw un sydd wedi meddwi neu sydd dan oed, a byddant yn gwybod sut i ofyn am brawf adnabod gan unrhyw un sydd yn ymddangos fel pe bai dan oed.*

*Dylid cofnodi'r holl hyfforddiant staff ar werthu alcohol i rai dan oed, a sicrhau bod y cofnod hwnnw ar gael i awdurdodau cyfrifol ar gais.*

*Ni chaiff rhai dan 18 oed ond eu derbyn i'r safle yng nghwmni oedolyn.*
*Gweithredir polisi herio 21, lle gofynnir am brawf adnabod oddi wrth unrhyw un sydd yn ymddangos fel pe bai dan 21 oed ac sydd yn ceisio prynu alcohol.*

*Yr unig brawf adnabod a dderbynnir yw trwydded yrru sy'n cynnwys ffotograff, pasbort, PASS (Proof of Age Standards Scheme) neu gardiau adnabod Milwrol achrededig. Bydd staff wedi'u hyfforddi ar y polisi hwn a chofnodion yn cael eu cadw.*

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified